# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (COUNCIL CHAMBER - PORT TALBOT CIVIC CENTRE)

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 24 Medi 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Cynghorydd**: | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.L.Thomas a/ac A.N.Woolcock |
| **Aelod CDU/CDLI:** | Aelod A.Wingrave |
| **Swyddogion yn bresennol:** | N.Pearce, S.Ball, J.Griffiths, S.Jenkins, R.MacGregor a/ac T.Davies |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 3 Medi, 2019.

2. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle mewn perthynas â'r ceisiadau a gyflwynwyd i'r pwyllgor heddiw.

3. **CAIS RHIF. P2018/0493 - CYRCHFAN ANTUR CWM AFAN**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais diweddaredig hwn, fel a fanylwyd yn yr adroddiad. Nododd aelodau fod angen penderfyniad diweddaredig ar y cais a gyflwynwyd i'r pwyllgor heddiw, sef cais rhif P2018/0493 (Cyrchfan Antur Cwm Afan), a gytunwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar 19 Mawrth 2019.

**PENDERFYNWYD:** 1. RHOI caniatâd cynllunio i'r datblygiad yn amodol ar yr amodau a fanylir isod, ac yn amodol ar arwyddo cytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 yn seiliedig ar y Penawdau Telerau cyffredinol canlynol:

- Cynnwys Fframwaith Cyfreithiol i fynd i'r afael â darpariaeth safle fferm Solar a safle/safleoedd cydadfer arall/eraill oddi ar y safle ynghyd â Chynlluniau Rheoli Cynefinoedd cysylltiedig yn unol ag ymagwedd ddilyniannol

- Cyfrannu at/darparu mynediad a gwelliannau i Lwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 855

- Gweithredu tirlunio strwythurol ymlaen llaw (i'r graddau y mae'n ymarferol wrth ystyried gwaith ar y safle).

2. Os nad yw'r cytundeb adran 106 gofynnol wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2020, y bydd awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i wrthod caniatâd cynllunio ar y sail, yn absenoldeb y cytundeb cyfreithiol angenrheidiol, na fyddai effeithiau amgylcheddol a nodwyd y datblygiad, yn arbennig ar fioamrywiaeth/cynefin, yn cael eu lliniaru, yr union resymau i'w cytuno mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a'r Rheolwr Datblygu - Cynllunio, i wneud newidiadau i'r amodau a/neu Benawdau Telerau'r cytundeb cyfreithiol angenrheidiol, yn amodol ar ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, hyd at y pwynt lle caiff y cytundeb cyfreithiol ei arwyddo ac y rhoddir cydsyniad amlinellol.

4. **CAIS RHIF. P2014/0825 - FOEL TRAWSNANT**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Gosod 11 o dyrbinau gwynt gydag uchafswm uchder o 145m i

gynhyrchu hyd at 33 MW, ynghyd â datblygiad ategol gan gynnwys is-orsaf ac adeilad rheoli, ceblau trydan tanddaearol ar y safle, traciau mynediad carreg i'r safle, lleoedd caeëdig dros dro ar gyfer adeiladu, seiliau tyrbin a phadiau craen dros dro. (Cais diwygiedig sy'n ceisio gostyngiad yn nifer y tyrbinau o 13 i 11, cynnydd yn yr uchder o 120m i 145m) ym Moel Trawsnant, Bryn, Port Talbot) fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2014/0825, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

5. **CAIS RHIF. P2019/5237 - SINEMA PLAZA**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (dymchwel rhan gefn yr adeilad rhestredig Gradd II, codi estyniad newydd a newid defnydd yr adeilad cyfan i gyfleuster defnydd cymysg ar gyfer y gymuned, sy'n cynnwys caffi (A3), neuadd (D2), ystafelloedd amlbwrpas (D2), campfa (D2), a chyfleusterau ategol, 2 uned A1/A2/A3, swyddfeydd (A2/B1) a maes parcio cysylltiedig, storfa feiciau, storfa finiau, ardal amwynderau i weithwyr, gwaith draenio, priffyrdd a pheirianneg. (20/08/19 - Ymgynghoriad cynlluniau diwygiedig ar Adroddiad Asesiad Risg Rhagarweiniol ac atodiadau A-G cysylltiedig) yn Sinema'r Plaza, Heol Talbot, Port Talbot) fel y manylir arnynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Esboniodd y swyddogion fod gwall teipio yn yr adroddiad a ddosbarthwyd - Dylai Amod 27 ddarllen 06:00 ac nid 07:00.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2014/0825, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, gan gynnwys aralleirio Amod 27, fel y nodwyd uchod.

6. **APELIADAU Y PENDERFYNWYD ARNYNT - 26 AWST I 17 MEDI 2019**

**PENDERFYNWYD:** Cofnodi'r apêl ganlynol y penderfynwyd arni, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cyf. yr apêl. A2019/5001

Dileu amod 3 caniatâd cynllunio P2018/0867 i gael gwared ar y cyfyngiad ar y defnydd o'r garej i barcio cerbydau modur, beiciau a storio biniau mewn perthynas â'r fflatiau a gymeradwywyd a'i atal rhag cael ei rentu, ei ddefnyddio neu ei werthu ar wahân i'r fflatiau yn 36 Teras Rockingham, Llansawel, Castell-nedd.

Penderfyniad:

Caniatawyd yr Apêl

7. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 26 AWST I 17 MEDI 2019**

Derbyniodd aelodau restr o Geisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt rhwng 26 Awst ac 17 Medi 2019, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Y dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**